



menter caerdydd

mentercaerdydd.org
029 2068 9888

Arolwg o ddefnydd yr iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg

Adroddiad Canlyniadau

Gorffennaf 2013

Cynnwys

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cefndir Menter Caerdydd a'r Prosiect Hwn
- 1.2 Y Gymraeg ym Mro Morgannwg

2. Yr Arolwg

- 2.1 Nodau'r Arolwg
- 2.2 Methodoleg yr Arolwg

3. Canlyniadau a Chanfyddiadau – Ymatebion fesul cwestiwn

- 3.1 Cyffredinol
 - 3.1.1 Oedran
 - 3.1.2 Ardaloedd
 - 3.1.3 Nifer o ymatebwyr Cymraeg eu hiaith
 - 3.1.4 Y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ar hyn o bryd
 - 3.1.5 Galw am fwy o ddarpariaeth Gymraeg
- 3.2 Teulu a Phlant
 - 3.2.1 Ysgolion Cymraeg
 - 3.2.2 Rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg
 - 3.2.3 Iaith y plentyn gartref
 - 3.2.4 Iaith y plentyn wrth gymdeithasu
 - 3.2.5 Balchder
 - 3.2.6 Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant
 - 3.2.7 Gweithgareddau cyfrwng Saesneg i blant
 - 3.2.8 Datblygu gwasanaethau newydd i blant
 - 3.2.9 Gweithgareddau teuluol cyfrwng Cymraeg
 - 3.2.10 Galw am fwy o ddarpariaeth Gymraeg i deuluoedd
 - 3.2.11 Datblygu gwasanaethau newydd i blant meithrin
- 3.3 Oedolion
 - 3.3.1 Defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol
 - 3.3.2 Galw am fwy o ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion
 - 3.3.3 Datblygu gwasanaethau newydd i Oedolion
 - 3.3.4 Cyrsiau Oedolion
- 3.4 Defnydd o'r Gymraeg
 - 3.4.1 Cefnogaeth i ail-gydio yn y Gymraeg
- 3.5 Cloi
 - 3.5.1 Sylwadau pellach

4. Casgliadau terfynol

- 4.1 Argymhellion

5. Pwyntiau Gweithredu

Atodiad 1 Arolwg Yr Iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir Menter Caerdydd a'r Prosiect Hwn

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddi-ddymu Menter y Fro yn Ionawr 2013, sicrhaodd Menter Caerdydd tendor i ddatblygu ac arwain prosiect yn ymwneud â'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Derbyniodd Menter Caerdydd swm o £30,000 gan Lywodraeth Cymru i ddechrau ar y gwaith o gyd-weithio â phartneriaid lleol yn ogystal â'r awdurdod lleol, a chodi proffil a defnydd yr iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg.

Mae gan Menter Caerdydd 9 aelod staff, a throsiant o £599,308 (2012/2013). O ganlyniad i gyd-weithio cyson gyda phartneriaid megis Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru, mae Menter Caerdydd wedi magu dros 10 mlynedd o brofiad o ddatblygu'r Gymraeg yn y gymuned. Mewn arolwg diweddar o Wasanaethau Menter Caerdydd (585 o ymatebion, Gwanwyn 2013), nododd 92.2% o'n cwsmeriaid eu bod nhw'n gweld Menter Caerdydd fel hwb canolog i'r iaith Gymraeg yn y brifddinas. Nod hirdymor Menter Caerdydd yw cyd-weithio gyda Chyngor Bro Morgannwg er mwyn sicrhau bod yr iaith yn ffynnu a bod cyfleoedd cymdeithasol yn y Gymraeg yn cyfateb â'r hyn sydd ar gael yn Saesneg yn y Sir.

1.2 Y Gymraeg ym Mro Morgannwg

Yn ôl Cyfrifiad 2011, poblogaeth y Sir yw 122,018, gyda 13,189 yn siarad Cymraeg. O'r 22 Sir yng Nghymru, mae Bro Morgannwg yn 12fed o ran poblogaeth ac mae 10.8% yn siarad Cymraeg. Mae'n cynnwys trefi'r Barri a Phenarth ac mae poblogaeth sylweddol yn ardaloedd Llanilltud Fawr a'r Bontfaen.

Mae galw cynyddol a thwf mewn addysg Gymraeg yn yr ardal, ac mae 7 ysgol gynradd Cymraeg ac un ysgol gyfun Gymraeg yn y Sir ar hyn o bryd.

Mae bron i 30% o boblogaeth plant a phobl ifanc y Fro yn rhugl yn y Gymraeg (o'i gymharu â bron i 20% o boblogaeth plant a phobl ifanc Caerdydd sy'n siarad Cymraeg).

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol 2012 ym Mro Morgannwg, a bu'r broses godi arian yn ogystal ag wythnos y Brifwyl ei hun yn llwyddiannus iawn. Gwelwyd miloedd o drigolion Bro Morgannwg yn trefnu a'n mynychu lluoedd ddi-gwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddwy flynedd cyn yr Eisteddfod, ac mae cryn ddiddordeb wedi ei ddangos tuag at y Gymraeg yn lleol ers haf y llynedd.

2. Yr Arolwg

2.1 Nodau'r Arolwg

Nod yr arolwg hwn oedd casglu gwybodaeth gan drigolion Bro Morgannwg am y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig yn yr ardal ar hyn o bryd, ac asesu'r angen sydd am fwy o wasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau cyfrwng Gymraeg i blant yn ogystal ag oedolion yn y Fro.

- Pa wasanaethau Gymraeg sydd ar gael ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd.
- Beth yw defnydd pobl o'r Gymraeg yn gymdeithasol/ar lefel gymunedol.
- Agwedd tuag at yr iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg.
- Faint o'r rhai dderbyniodd addysg Gymraeg sy'n dal i ddefnyddio'r iaith ers gadael yr ysgol.
- Syniadau am ddatblygu gwasanaethau pellach ym mhob un o'r categorïau - teuluoedd, plant ac oedolion.
- Cynnig argymhellion i'r dyfodol, er mwyn cryfhau statws yr iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg.

2.2 Methodoleg yr Arolwg

Crëwyd yr holiadur a chasglwyd y data'n electronig trwy wefan Survey Monkey.

Prif ffordd o hyrwyddo'r holiadur oedd trwy ysgolion cynradd ac uwchradd Bro Morgannwg. Gofynnwyd i'r wyth ysgol i ddsbarthu'r wybodaeth yn electronig at rieni'r ysgolion, ac fe wnaeth grŵp o staff Menter Caerdydd ymweld â rhai o'r ysgolion hynny er mwyn casglu mwy o ymatebion. Aethon ni hefyd i drafod gyda disgyblion blwyddyn 10 Ysgol Gyfun Bro Morgannwg er mwyn sicrhau bod gyda ni ymatebion a thystiolaeth o safbwynt pobl ifanc yr ardal.

Anfonwyd yr holiadur at weithleoedd a sefydliadau lleol sy'n gweithredu yn y Gymraeg yn yr ardal – gan gynnwys y capeli Gymraeg, Merched y Wawr a'r Mudiad Meithrin. Bu rhai unigolion blaenllaw o fewn yr ardal hefyd yn gefnogol iawn, ac a gytunodd i ddsbarthu linc yr holiadur trwy eu cysylltiadau personol eu hunain.

Hyrwyddwyd yr holiadur yn eang trwy rwydweithiau ar-lein Menter Caerdydd hefyd, gan fod nifer o drigolion Bro Morgannwg erbyn hyn yn defnyddio'n gwasanaethau ni yng Nghaerdydd ac yn derbyn gwybodaeth gyson trwy wefan, tudalen Facebook a Trydar Menter Caerdydd, yn ogystal â thrwy e@chlysur - bas data electronig y Fenter i dros 5,000 o gyfeiriadau e-bost.

Mae copi o'r holiadur llawn ynghlwm â'r adroddiad fel atodiad (tt. 19-21).

Crëwyd un holiadur a oedd yn cynnwys cwestiynau ac atebion dwyieithog.


Derbyniwyd cyfanswm o 539 o ymatebion i'r holiadur dros gyfnod o lai na thair wythnos.

3. Canfyddiadau a Chanlyniadau - Ymatebion fesul cwestiwn

3.1 Cyffredinol


3.1.1 Oedran

Dangosir rhaniad yr ymatebion ar ffurf oedran yma.



Roedd sicrhau ein bod ni'n casglu ymatebion gan drawstoriad o oeddrannau yn bwysig iawn, er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth rydyn ni'n ei gasglu yn cynnwys cynrychiolaeth deg gan bob grŵp oedran. Mae'r siart yn dangos y cafwyd yr ymateb mwyaf gan unigolion yn y categori oedran 40-60 (33.5%). Cafwyd bron cymaint o ymatebion gan y rheiny sy'n cwmpo i'r categori 25-40 oed (32.9%), ac mae'r ymateb a gafwyd gan unigolion dros 60 oed tipyn yn is (8.6%). Mae'r ymatebion a gasglwyd gan bobl ifanc dan 18 oed yn eithaf uchel (21.8%), ond gwelir bod y nifer o ymatebion a gafwyd gan unigolion 18-24 oed llawer yn is na'r gweddill (3.2%).


3.1.2 Ardaloedd



Wrth edrych ar yr ymatebion, gellir gweld yn glir bod dros hanner y rheiny a ymatebodd i'r holiadur yn byw yn y Barri (56.7%). Mae 15.3% yn byw yn y Bont-faen, ac 13.5% yn byw ym Mhenarth - tair ardal amlwg lle mae nifer o Gymry Cymraeg Bro Morgannwg wedi ymgartrefi ynddynt. Wrth ddadansoddi hyn rhaid cofio bod pob un o ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg, ag eithrio un, wedi eu lleoli yn yr ardaloedd yma, ac mae hynny'n amlwg wedi dylanwadu ar y canlyniadau. Nododd 57 person 'Arall' wrth lenwi'r holiadur, gan gynnwys trigolion ardaloedd megis Y Rhŵs (2.48%), Gwenfô (1.45%) a Sain Nicolas (1.04%). Dewisodd 56 o bobl i beidio ag ateb y cwestiwn hwn.


3.1.3 Nifer o ymatebwyr Cymraeg eu hiaith

Mae'r siart isod yn dangos faint o'r rheiny a ymatebodd sydd yn gallu siarad Cymraeg. O'r 536 a ymatebodd, atebodd 380 'Ydw' (70.9%), a 156 'Nac Ydw' (29.1%).




3.1.4 Y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ar hyn o bryd

Fel gellir ei weld yn y siart isod, mae'r rhan helaeth o'r bobl a ymatebodd i'r holiadur yn anffodlon gyda'r ddarpariaeth Gymraeg presennol. Atebodd 79.1% nad ydyn nhw'n meddwl bod y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd yn ddigonol.



3.1.5 Galw am fwy o ddarpariaeth Gymraeg


Wrth edrych ar y siart yma, gellir gweld yn glir yr angen a'r galw sydd am fwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg— gyda 88.7% yn ateb yr hoffon nhw weld cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg.



3.2 Teulu a Phlant

3.2.1 Ysgolion Cymraeg


Gellir gweld rhaniad yr ysgolion isod.



Ysgol Gyfun Bro Morgannwg oedd â'r ymateb mwyaf (42.6%) - ac mae hyn yn cynnwys y rhieni sydd wedi ymateb i'r holiadur ar-lein, yn ogystal â'r 120 o ddisgyblion blwyddyn 10 wnaeth gwblhau'r holiadur yn ystod ein hymweliad â'r ysgol. Ysgol lolo Morganwg oedd yr ail ateb mwyaf poblogaidd (18.1%), yna Ysgol Sant Curig (11.0%), Ysgol Sant Baruc (9.6%), Ysgol Gwaun y Nant (7.4%) ac Ysgol Pen-y-Garth (7.1%). Wrth reswm, cafwyd llai o ymateb gan rieni ysgolion Cymraeg mwyaf newydd yr ardal, sydd â niferoedd disgyblion tipyn yn is ar hyn o bryd - Ysgol Gymraeg Nant Talwg (7.1%) ac Ysgol Gymraeg Dewi Sant (0.2%).

3.2.2 Rhesymau dros ddewis addysg cyfrwng Cymraeg

Yng nghwestiwn 10, gofynnwyd beth yw'r prif resymau pam wnaethon nhw ddewis danfon eu plentyn/plant i ysgolion Cymraeg. Rhoddwyd 6 dewis – 'Dwi eisiau i 'mhlentyn fod yn ddwyieithog', 'Cyfleoedd gyrfaol mwy addawol', 'Safonau a chyfraddau llwyddiant uwch', 'I ymdrwytho yn yr iaith Gymraeg, y diwylliant a'r treftadaeth Gymreig', 'Safonau ymddygiad a disgyblu uwch', 'Hygyrch/Hawdd ei gyrraedd o fewn eich cymuned'. Roedd modd iddynt ddewis mwy nag un o'r atebion hynny, yn ogystal â nodi unrhyw resymau eraill yn y blwch 'Arall'.



Dyma ganlyniadau'r atebion yn nhrefn eu poblogrwydd:

- 'Dwi eisiau i 'mhlentyn fod yn ddwyieithog' (82.6%).
- 'Cyfleoedd gyrfaol mwy addawol' (63.5%).
- 'I ymdrwytho yn yr iaith Gymraeg, y diwylliant a'r treftadaeth Gymreig' (49.0%).
- 'Safonau a chyfraddau llwyddiant uwch' (48.1%).
- 'Safonau ymddygiad a disgyblu uwch' (42.5%).
- 'Hygyrch/Hawdd ei gyrraedd o fewn eich cymuned' (15.5%).

Dewisodd 36 person ateb 'Arall', ac mae'r sylwadau hynny'n cynnwys:

"Oherwydd mae'n dda ein bod yn gallu siarad y ddwy iaith"

"To learn another language, increase his knowledge & understanding"


"Dwi eisiau i'r Gymraeg barhau'n iaith fyw naturiol ar wefusau fy mhlant"

"I feel I have missed out myself as a result of lack of fluency in Welsh"

"Dwi eisiau i 'mhlentyn dderbyn addysg yn defnyddio iaith yr aelwyd"

3.2.3 Iaith y plentyn gartref


Yng nghwestiwn 11, gofynnwyd pa iaith/ieithoedd mae eu plentyn/plant yn siarad adref – gyda'r dewis o 'Cymraeg yn unig', 'Saesneg yn unig', 'Cymraeg a Saesneg' ac 'Arall'.



Gellir gweld o'r siart uchod bod dros hanner y plant yn dod o gartrefi dwyieithog, 'Cymraeg a Saesneg' (56.3%). Mae 35.0% o'r plant yn siarad 'Saesneg yn unig' adref, a dim ond 8.6% o'r plant sy'n dod o gartrefi uniaith Gymraeg – 'Cymraeg yn unig' (8.6%). Dewisodd 18 person i ateb 'Arall', ac mae'r ieithoedd hynny'n cynnwys: Ffrangeg a Thai.

3.2.4 Iaith y plentyn wrth gymdeithasu


Yn y cwestiwn nesaf, gofynnwyd pa iaith/ieithoedd mae eu plentyn/plant yn siarad wrth gymdeithasu y tu allan i'r ysgol. Roedd y dewisiadau'r un fath â'r cwestiwn blaenorol.



'Cymraeg a Saesneg' yw'r dewis mwyaf poblogaidd unwaith eto (57.9%), ond mae llai o fwllch rhwng yr ail ateb mwyaf poblogaidd y tro hwn, gyda 41.1% o'r rhieni'n nodi nad ydy eu plant yn defnyddio'r Gymraeg o gwbl yn gymdeithasol - 'Saesneg yn unig'. Dim ond 0.9% atebodd bod eu plant yn siarad 'Cymraeg yn unig' wrth gymdeithasu y tu allan i'r ysgol. Dewisodd 8 i ateb 'Arall', a Ffrangeg yw'r iaith sy'n cael ei nodi yma.


3.2.5 Balchder

Gofynnwyd i'r rhieni nodi a oedden nhw'n falch bod eu plentyn/plant yn gallu siarad Cymraeg ai peidio. Fel gellir gweld yn y siart isod, roedd yr ymateb yn bositif iawn, gyda 98.1% wedi ateb eu bod nhw'n falch bod eu plentyn/plant yn gallu siarad Cymraeg.



3.2.6 Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant

Un o amcanion yr asesiad anghenion yma oedd darganfod pa fath o weithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn cael eu cynnig i'r plant hynny sydd mewn addysg Gymraeg yn y Fro, a mesur faint o gyfleoedd sydd ar gael iddynt ddefnyddio'r iaith y tu allan i gatiâu'r ysgol. Gofynnwyd felly a ydy eu plentyn yn mynychu unrhyw glybiau neu weithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol, a gofynnwyd iddynt nodi manylion unrhyw weithgareddau maent yn eu mynychu yn y blwch sylwadau.



Gellir gweld nad yw'r rhan fwyaf o'r plant yn mynychu unrhyw glybiau neu weithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol yn ardal Bro Morgannwg ar hyn o bryd – gyda 348 wedi ateb 'Nac Ydy' (82.1%). Atebodd 76 (17.9%) bod eu plant yn mynychu clybiau neu weithgareddau cyfrwng Cymraeg. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd yma oedd Adran Heol y March, clybiau ieuenctid a chlybiau chwaraeon yr Urdd a gweithgareddau sydd wedi eu lleoli yng Nghaerdydd. Dylid nodi hefyd bod sawl un wedi gadael sylw i ddweud nad ydyn nhw'n ymwybodol bod yna unrhyw glybiau cyfrwng Cymraeg i blant ym Mro Morgannwg:

"Nid oes unrhyw glybiau"


"Clwb carco. Dwi ddim yn gwybod am glybiau Cymraeg eraill yn yr ardal."

"There are not any available or he would"

"Are there any available?"

3.2.7 Gweithgareddau cyfrwng Saesneg i blant

Gofynnwyd nesaf a ydy eu plentyn/plant yn mynychu unrhyw glybiau neu weithgareddau Saesneg y tu allan i'r ysgol. Gellir gweld o'r siart isod bod yr ymateb y tro hwn yn wahanol iawn.



Mae 62.1% yn mynychu clybiau neu weithgareddau Saesneg y tu allan i'r ysgol, ac o'r sylwadau a adawyd gellir gweld bod amrywiaeth helaeth o weithgareddau cyfrwng Saesneg ar gael i blant ar draws nifer o ardaloedd ym Mro Morgannwg, gan gynnwys Y Barri, Llanilltud Fawr, Y Bont-faen, Dinas Powys, Sili a Phenarth. Unwaith eto, cafwyd rhai'n nodi eu bod nhw'n mynychu gweithgareddau Saesneg yng Nghaerdydd yn ogystal.

3.2.8 Datblygu gwasanaethau newydd i blant

Gofynnwyd cwestiwn agored nesaf, yn holi pa fath o glybiau neu weithgareddau hoffon nhw eu gweld yn cael eu datblygu. Y prif bwyntiau a gododd oedd yr angen am glwb drama, clwb celf a dylunio, mwy o weithgareddau chwaraeon a chadw'n heini, tripiâu, a chyfleoedd cyffredinol i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Dyma rhai o'r sylwadau a gofnodwyd:

"Gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal yn Saesneg ar hyn o bryd, ond yn Gymraeg e.e. coginio"

"Byddaf yn hoffi cymryd rhan mewn clybiau cymdeithasol, ble gallaf ymarfer Gymraeg mewn ffordd hwylus"

"Hoffwn gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon fel hoci a pêl-rwyd. Hoffwn hefyd weld gweithgareddau cerddorol."


"Clybiau cymdeithasol, chwaraeon e.e. nofio, athletau, rhedeg. Siawns i gwrdd â ffrindiau."

"Welsh activities – outside adventures. Sports i.e. sailing, canoeing, days away etc"

"Any activity which would encourage my children to use Welsh outside of the school setting. Perhaps a social/youth club on a weekly basis to meet with children from the other Welsh primary schools."

3.2.9 Gweithgareddau teuluol cyfrwng Cymraeg


Yng nghwestiwn 21, gofynnwyd a oedden nhw a'u plant yn mynychu unrhyw weithgareddau teuluol Cymraeg (ag eithrio Cylchoedd Meithrin a sesiynau 'Ti a Fi') yn ardal Bro Morgannwg ar hyn o bryd. Gellir gweld yr ymateb isod.



Dim ond 13.9% atebodd 'Ydyn', ac atebodd 86.1% nad ydyn nhw'n mynychu unrhyw fath o weithgaredd cyfrwng Cymraeg fel teulu o gwbl. Ar wahân i hynny, mae ambell un wedi nodi eu bod yn mynychu Capeli ac Ysgolion Sul cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg, Caerdydd a Phen-y-bont, ac eraill yn nodi eu bod nhw fel teulu yn mynychu gwyliau Cymraeg megis yr Eisteddfod a Tafwyl. Cafwyd ymateb gan nifer yn dweud nad oes gweithgareddau Cymraeg i deuluoedd yn eu hardaloedd nhw ar hyn o bryd - *"Does dim byd yn Y Barri", "Does dim rhai Cymraeg"...*


3.2.10 Galw am fwy o ddarpariaeth Cymraeg i deuluoedd

Yng nghwestiwn 23, gofynnwyd yn syml os hoffen nhw weld mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i deuluoedd ym Mro Morgannwg. Roedd yr ateb yn glir iawn – gyda 91.7% yn ateb 'Hoffwn'.



3.2.11 Datblygu gwasanaethau newydd i blant meithrin

Nesaf, gofynnwyd pa fath o weithgareddau cyfrwng Cymraeg hoffon nhw eu gweld yn cael eu datblygu ar gyfer plant oed meithrin. Cynigiwyd 6 dewis, - 'Amser Stori Cymraeg mewn llyfrgelloedd lleol', 'Cyrsiau'n rhoi cyfle i famau beichiog Cymraeg gyfarfod', 'Cyrsiau bygi heini', 'Sesiynau nofio i fabanod 3 mis+', 'Sesiynau ymarfer corff i blant meithrin', 'Miri Meithrin - sesiwn chwarae yn ystod gwyliau ysgol'. Roedd hefyd lle iddynt ddewis 'Arall' a gadael sylwadau'n cynnwys unrhyw awgrymiadau eraill.



Yr ateb mwyaf poblogaidd oedd 'Amser Stori Cymraeg mewn llyfrgelloedd lleol' (76.3%). Yr ail weithgaredd mwyaf poblogaidd yn ôl yr atebion yma ydy'r sesiynau chwarae i blant oed meithrin, 'Miri Meithrin' (65.7%).

Dewisodd 42 i ateb 'Arall', a dyma ddetholiad o'r sylwadau hynny:

"Gwersi cerddoriaeth"

"Clybiau chwaraeon i oedranau 3+"


"Hoffwn gael y cyfle i gwrdd â rhieni eraill sydd yn siarad Cymraeg gyda'u plant."

"Craft activities"

"Family fun days"

3.3 Oedolion

3.3.1 Defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol




Atebodd ychydig dros hanner (53.45%) eu bod nhw'n ymwneud â'r Gymraeg yn gymdeithasol. Yr argraff a geir o'r ymatebion hyn ydy bod nifer o'r ymatebwyr yn perthyn i'r categori oed hŷn, ac sy'n ymwneud â'r Gymraeg trwy fudiadau cymdeithasol gwirfoddol megis Capeli Cymraeg a Merched y Wawr. Mae hi'n amlwg bod diffyg gwasanaeth statudol Gymraeg i oedolion, yn enwedig i'r categori oedran 20-50, ac mae ambell un yn tynnu sylw at hyn yn eu sylwadau hwythau:

“Gyda ffrindiau personol, achos does dim digwyddiadau addas ar gael yn y Fro”

“Cymdeithasu gyda ffrindiau Cymraeg eu hiaith ond dwi ddim yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau penodol sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg yn y Fro.”


3.3.2 Galw am fwy o ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion

Fel yn yr adran 'Teulu a phlant', holwyd nesaf os ydyn nhw'n teimlo bod galw am fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i oedolion ym Mro Morgannwg. Unwaith eto, mae'r ateb yn glir, gydag 86.6% yn ateb 'Ydw' – bod yna alw am fwy o ddarpariaeth Gymraeg i oedolion.



3.3.3 Datblygu gwasanaethau newydd i Oedolion

Y cam nesaf felly oedd holi pa fath o weithgareddau neu ddiwyddiadau hoffon nhw eu gweld yn cael eu trefnu yn y dyfodol. Rhoddwyd 7 ateb posibl - 'Cwis', 'Cyngherddau', 'Tripiâu', 'Gigs', 'Nosweithiau Comedi', 'Gweithdai a gweithgareddau hamdden' a 'Dosbarthiadau Nos'. Roedd modd iddynt dicio mwy nag un ateb, a gadael unrhyw awgrymiadau eraill yn y blwch 'Arall'.



Y ddau ateb mwyaf poblogaidd yw 'Gweithdai a Gweithgareddau hamdden' (67.8%) a 'Dosbarthiadau Nos' (58.0%). Dewisodd 28 'Arall', a dyma ddeddoliad o'u sylwadau nhw:

"Grwpiau cymdeithasol"

"Noson barddoniaeth neu rhywbeth tebyg i Noson 4a6 yng Nghaernarfon."

"Gwersi/coaching chwaraeon yn Gymraeg"


"Sgyrsiau/darlithoedd/gwneud cwrw, gwin"

"Gwasanaethau beunyddiol, fel siopau, bysiau ac ati"

"Welsh spoken in Council properties; Welsh speaking cafes etc"


3.3.4 Cyrsiau Oedolion

Yn rhan olaf yr adran Oedolion, canolbwyntir ar y galw am ddarpariaeth o gyrsiau cyfrwng Cymraeg i oedolion ym Mro Morgannwg. Gofynnwyd yng nghwestiwn 30 os fydden nhw'n fwy tebygol o gofrestru ar gyfer cwrs wythnosol neu undydd. Mae'r ymateb yn eithaf cyfartal, ond mae yna ychydig mwy o ffafriaeth i gyrsiau wythnosol – 'Wythnosol' (52.4%) ac 'Undydd' (47.6%).



3.4 Defnydd o'r Gymraeg

Yn adran olaf yr holiadur, roedden ni am ddarganfod faint o'r rheiny dderbyniodd addysg Gymraeg sy'n dal i ddefnyddio'r iaith erbyn hyn. Gellir gweld yr ymateb isod.



O'r bobl a ymatebodd, dywedodd 43.4% eu bod nhw wedi derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae 68.3% yn dal i ddefnyddio'u Cymraeg nawr. Targedwyd y cwestiwn nesaf felly at y 31.7% hynny a atebodd nad ydyn nhw'n defnyddio'u Cymraeg o gwbl bellach, er iddyn nhw dderbyn addysg Gymraeg.

3.4.1 Cefnogaeth i ail-gydio yn y Gymraeg

Nesaf, gofynnwyd pa gefnogaeth fyddai'n gallu eu helpu i ail-gydio yn y Gymraeg nawr. Dyma ddetholiad o'r sylwadau:

"Evening/weekend workshops – either individually or as a family."

"More social events to speak to Welsh speakers"

"Gweithgareddau cymdeithasol, yn enwedig yn y Fro GORLLEWIN. Mae popeth Cymraeg yn digwydd yn y Fro Dwyrain neu mewn llefydd eraill e.e. Caerdydd."

"More family based activities for those that speak Welsh, most of my friends are English only so it would be nice to make some bilingual friends with children of the same ages!"

3.5 Cloi

3.5.1 Sylwadau pellach

I orffen yr holiadur rhoddwyd cyfle i bobl gynnig unrhyw sylwadau pellach i gloi. Dyma rhai o'r sylwadau a gynigiwyd:

"Byddai'n braf gweld y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio y tu allan i'r ysgol – nid fel iaith y dosbarth yn unig!"

"Mae angen mawr am fwy o ddarpariaeth i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol - fel sydd yng Nghaerdydd"

"Ychydig iawn o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael ym Mhenarth. Mae hyn yn siomedig, enwedig wrth ystyried y ffaith fod cynifer o blant o'r ardal yn mynd i naill ai Ysgol Pen y Garth neu i Fro Morgannwg. Mae llawer o oedolion yn medru'r Gymraeg yma ond unlle iddynt gyfarfod i'w defnyddio ymysg ei gilydd."

"Byddwn wrth fy modd i weld mwy o weithgareddau i'r Cymry Cymraeg yn Y Barri yn enwedig yn gymdeithasol i fy mab. Mae Menter Caerdydd yn wych – hoffwn weld pethau tebyg yn y Fro!"

"Rwy'n teimlo byddai cynyddu defnydd y Gymraeg gan sefydliadau'r Fro, fel y Cyngor, a lleoliadau adloniant fel y Memo, yn annog Cymry Cymraeg i fod yn rhan o fywyd cymdeithasol y Fro yn gyffredinol yn lle teimlo wedi'n gelyniaethu neu ein bod yn anghyfleustra statudol i'w gadw'n dawel trwy daflu ambell ddarn o Gymraeg tuag atom. Does dim arlliw yn y Cyngor mai llai na blwyddyn yn ôl y cynhaliwyd yr Eisteddfod, er enghraifft."

4 Casgliadau Terfynol

Mae'r adborth a gasglwyd o'r holiadur hwn yn dangos yn glir bod gwendid yn y ddarpariaeth gymdeithasol cyfrwng Cymraeg ar gynnig ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd, a bod galw am gynydd yn y ddarpariaeth. I grynhoi rhai o'r canfyddiadau:

- Bron i 30% o boblogaeth plant a phobl ifanc y Fro yn rhugl yn y Gymraeg.
- 41.1% o blant mewn addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg ddim yn defnyddio'r Gymraeg o gwbl y tu allan i oriau'r ysgol.
- 82.1% o blant mewn addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg ddim yn mynychu unrhyw glybiau neu weithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i oriau'r ysgol.
- 62.1% o blant mewn addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg yn mynychu clybiau neu weithgareddau Saesneg y tu allan i oriau'r ysgol.
- 88.7% eisiau gweld cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg.
- 91.7% yn awyddus i weld mwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd ym Mro Morgannwg.
- 86.6% wedi ateb yr hoffon nhw weld mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i oedolion ym Mro Morgannwg.
- 31.7% o'r ymatebwyr, sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ddim yn defnyddio'u Cymraeg o gwbl bellach.

Daeth i'r amlwg bod lluo o weithgareddau i'r plant fynychu clybiau a gweithgareddau trwy'r Saesneg, ac i gymharu, mae'r cyfleoedd iddynt gael ymwneud â'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn brin iawn. Gwelir bod twf aruthrol mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ar hyn o bryd, ond ni chaiff hynny ei adlewyrchu mewn twf yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig.

Daeth yn amlwg felly bod galw cryf am fwy o wasanaethau Cymraeg ar draws pob categori oed - teuluoedd, plant meithrin, plant oed ysgol, pobl ifanc ac oedolion - er mwyn sicrhau cydraddoldeb ac i roi'r cyfleoedd gorau posibl i drigolion Bro Morgannwg gael defnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

4.1 Argymhellion

Mae'n gweledigaeth ni, yn dilyn yr adroddiad hwn, yn cynnwys:

- Creu, mewn partneriaethau, mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith.
- Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned.
- Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer trigolion.

5. Pwyntiau Gweithredu

- Dosbarthu copi o'r adroddiad at bob Cyngorydd yng Nghyngor Bro Morgannwg.
- Dosbarthu copi o'r adroddiad at Brifathrawon Ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg, yn ogystal â phartneriaid Cymraeg a di-Gymraeg y Sir.
- Trefnu i gyfarfod â Christopher Elsmore, Gwyn John a Neil Moore, Aelodau Cabinet Cyngor Bro Morgannwg, er mwyn trafod canlyniadau'r adroddiad.
- Trefnu i gyfarfod â Sian Davies, Cyfarwyddwr Cyngor Bro Morgannwg, er mwyn trafod canlyniadau'r adroddiad.
- Trefnu i gyfarfod â Jane Hutt, Aelod Cynulliad yr ardal, i drafod canlyniadau'r adroddiad
- Trefnu i gyfarfod ag Alun Cairns, Aelod Seneddol yr ardal, i drafod canlyniadau'r adroddiad
- Trefnu i gyfarfod ag Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru (Caroline Turner) i drafod canlyniadau'r adroddiad.
- Danfon copi o'r adroddiad at Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, sydd erbyn hyn â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg yn ogystal.
- Ceisio am gyllid allanol e.e. Loteri Fawr, Loteri Treftadaeth a Chyngor Celfyddydau Cymru er mwyn cynnal gweithgareddau Cymraeg ym Mro Morgannwg.
- Danfon copi o'r adroddiad at y cyhoedd yn electronig trwy ein system bas-ddata 'e-chlysur', Facebook a Twitter Menter Caerdydd.
- Sicrhau bod copi o'r adroddiad ar gael i'w ddarllen ar wefan Menter Caerdydd.

Atodiad 1

Arolwg Yr Iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg / Gorffennaf 2013

Cyffredinol

1. Enw 2. Ebost

3. Oedran – Categoriâu oedran

4. Ardal

Dinas Powys Ewenni Llandŵ Llanfihangel Llanilltud Fawr

Penarth Sain Dunwyd Sain Tathan Sili Y Barri

Y Bont-faen

Arall

5. Ydych chi'n siarad Cymraeg?

Ydw

Nac Ydw

6. Ydych chi'n meddwl bod y ddarpariaeth Cymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd yn ddigonol?

Ydw

Nac Ydw

7. A hoffech chi weld cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg?

Hoffwn

Na Hoffwn

Teulu a Phlant

8. Oes gennych chi blant sydd mewn addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd?

Oes

Nac Oes

9. Pa ysgol maen nhw'n ei fynychu?

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Ysgol Gwaun y Nant

Ysgol Gymraeg Dewi Sant

Ysgol Gymraeg Nant Talwg

Ysgol Iolo Morganwg

Ysgol Pen-y-Garth

Ysgol Sant Baruc

Ysgol Sant Curig

10. Ydych chi wedi dewis danfon eich plentyn i ysgol Gymraeg am un o'r rhesymau isod?

Dwi eisiau i 'mhlentyn fod yn ddwyieithog

Cyfleoedd gyrfaoel mwy addawol

Safonau a chyfraddau llwyddiant uwch

Safonau ymddygiad a disgyblu uwch

I ymdrwytho yn yr iaith Gymraeg, y diwylliant a'r treftadaeth Gymreig

Hygyrch/Hawdd ei gyrraedd o fewn eich cymuned

Arall

11. Pa iaith mae'ch plentyn yn ei siarad adref?

Cymraeg yn unig

Saesneg yn unig

Cymraeg a Saesneg

Arall

12. Pa iaith mae'ch plentyn yn ei siarad wrth gymdeithasu y tu allan i'r ysgol?

Cymraeg yn unig

Saesneg yn unig

Cymraeg a Saesneg

Arall

13. Ydych chi'n falch bod eich plentyn yn gallu siarad Cymraeg?

Ydw

Nac Ydw

14. Ydy'ch plentyn yn mynychu unrhyw glybiau neu weithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol yn ardal Bro Morgannwg ar hyn o bryd?

- Ydy Nac Ydy

15. Os ydyn nhw, nodwch y weithgaredd a'r lleoliad isod.

16. Ydy'ch plentyn yn mynychu unrhyw glybiau neu weithgareddau Saesneg y tu allan i'r ysgol yn ardal Bro Morgannwg ar hyn o bryd?

- Ydy Nac Ydy

17. Os ydyn nhw, nodwch y weithgaredd a'r lleoliad isod.

18. Pa glybiau/gweithgareddau hoffech chi eu gweld yn cael eu datblygu?

19. Pa ardaloedd/lleoliadau fyddai'n addas a'n gyfleus i gynnal y clybiau/gweithgareddau yma?

20. Oes gennych chi blant dan oed ysgol?

- Oes Nac Oes

21. Ydych chi a'r plant yn mynychu unrhyw weithgareddau teuluol Cymraeg (ag eithrio Cylch Meithrin a sesiynau 'Ti a Fi')?

- Ydyn Nac Ydyn

22. Os ydych chi, nodwch y weithgaredd a'r lleoliad isod.

23. A hoffech chi weld mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i deuluoedd ym Mro Morgannwg?

- Hoffwn Na Hoffwn

24. Pa fath o weithgareddau hoffech chi eu gweld yn cael eu datblygu?

- Amser Stori Cymraeg mewn llyfrgelloedd lleol Cyrsiau'n rhoi cyfle i famau beichiog Cymraeg gyfarfod
 Cyrsiau bygi heini Sesiynau nofio i fabanod 3 mis+
 Sesiynau ymarfer corff i blant meithrin Miri Meithrin – sesiwn chwarae yn ystod gwyliau ysgol

Oedolion

25. Ydych chi'n ymwneud â'r Gymraeg yn gymdeithasol?

- Ydw Nac Ydw

26. Os ydych chi, nodwch y weithgaredd a'r lleoliad isod.

27. Ydych chi'n teimlo bod galw am fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i oedolion ym Mro Morgannwg?

- Ydw Nac Ydw

28. Pa fath o weithgareddau/digwyddiadau hoffech chi eu gweld yn cael eu trefnu yn y dyfodol?

Cwis

Cyngherddau

Tripiau

Gigs

Nosweithiau Comedi

Gweithdai a gweithgareddau hamdden

Dosbarthiadau Nos

Arall

29. Pa ardaloedd/lleoliadau fyddai'n addas a'n gyfleus i gynnal y gweithgareddau yma? Os ydych chi'n gwybod am unrhyw ganolfanau penodol, nodwch nhw isod.

30. Pa fath o gwrs fydddech chi'n fwy tebygol o gofrestru ar ei gyfer?

Wythnosol

Undydd

Defnydd o'r Gymraeg

31. A wnaethoch chi dderbyn eich addysg trwy gyfrwng y Gymraeg pan oeddech chi'n blentyn/person ifanc?

Do

Naddo

32. Ydych chi'n dal i ddefnyddio'ch Cymraeg?

Ydw

Nac Ydw

33. Pa gefnogaeth fyddai'n gallu eich helpu i ail-gydio yn y Gymraeg nawr?

Cloi

34. Unrhyw sylwadau eraill